

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg



Y Beibl ym mywyd yr eglwysi heddiw

Blwyddyn 1, Rhan 2

Rhagfyr 2016 - Ionawr 2017

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Awgrymw'n eich bod yn rhannu'r ail ran hon o'r cynllun yn bedair sesiwn yn ystod misoedd Rhagfyr 2016 ac Ionawr 2017. Mae cwestiynau pob sesiwn ar dudalennau 2 a 3.

Sesiwn A: Gwyllo'r ffilm gyfan a thrafod cwestiynau, *Y Beibl yn y canol*.

Sesiwn B: Gwyllo'r bennod, *Trin a thrafod y Beibl*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn C: Gwyllo'r bennod, *Sut mae bod yn greadigol gyda'r Beibl*, a thrafod y cwestiynau.

Sesiwn D: Gwyllo'r bennod, *Sut all y Beibl fywchau ein heglwysi?*, a thrafod y cwestiynau.

Noder: Fe fydd y penodau unigol ar gael i'w lawr-lwytho o wefan yr Undeb ar ddechrau mis Rhagfyr.

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o bethau eraill i helpu i lenwi sesiwn, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Sesiwn A: Y Beibl yn y canol:

- 1) Pa ddefnydd a wneir o'r Beibl yn eich eglwys chi?
- 2) Oes 'na storïau neu gymeriadau arbennig yn y Beibl sy'n eich ysbrydoli neu'ch herio yn sefyllfa'r eglwys heddiw?
- 3) Pa mor bwysig yw gweld y Beibl trwy lygaid pobl eraill, a faint o bwyslais sydd ar wneud hynny o fewn eich eglwys?
- 4) Pam bod cymaint heddiw yn cael anhawster i weld y Beibl yn berthnasol i'w bywyd?

Sesiwn B: Trin a thrafod y Beibl

- 1) Ydy'ch ffydd bersonol wedi newid neu ddatblygu yn ystod eich oes? Os ydyw, ym mha ffyrdd, a beth sy'n gyfrifol am hynny?
- 2) Beth yw gwerth cyfathrebu'r neges Gristnogol drwy gyfrwng gwefan, neu gyfryngau cymdeithasol fel *Facebook* a *Twitter*? Oes yna beryglon?
- 3) Beth sy'n gyfrifol am y lleihad yn nifer yr Ysgolion Sul ar gyfer oedolion, ac oes yna rywbeth arall allai gymryd eu lle?
- 4) Oes gor-bwyslais ar bregethu'r Beibl ar draul ei gyflwyno mewn ffyrdd eraill?

Sesiwn C: Sut mae bod yn greadigol gyda'r Beibl?

- 1) Pryd oedd y tro diwethaf i'ch eglwys chi geisio gwneud rhywbeth gwahanol neu newydd, a beth oedd yr ymateb?
- 2) Ym mha ffyrdd mae eich eglwys wedi newid yn ystod eich cyfnod chi fel aelod?
- 3) A allwch chi feddwl am enghreifftiau o arbrofi mewn oedfaon sydd wedi eich cyffwrdd chi?
- 4) Ym mha ffordd mae eich adeiladau yn eich dal yn ôl rhag ceisio gwneud pethau newydd?

Sesiwn CH: Sut all y Beibl fywchau ein heglwysi?

- 1) Sut allai technoleg fodern gyfoethogi'r profiad o fwynhau'r Beibl ac addoliad yn eich eglwys?
- 2) Oes gennych chi brofiad o ddilyn cwrs fel *Alpha*? Beth yw cryfderau a gwendidau cyrsiau o'r fath?
- 3) Ydy oedfaon eich eglwys yn rhoi digon o gyfle i bobl gyfnewid profiadau a mynegi eu ffydd?
- 4) Ym mha ffyrdd y mae'r eglwysi wedi elwa o 'Blwyddyn y Beibl Byw' yn eich barn chi?

Rhai o'r pethau a ddwedwyd am y Beibl

'Am bob 100 o bobl, bydd un yn darllen y Beibl a'r 99 arall yn darllen y Cristion.'

'Beth bynnag ei maint neu ei lleoliad, rhaid i bob eglwys estyn y cyfle i'w haelodau i ddarllen a thrafod y Beibl gyda'i gilydd. Dyna'r unig ffordd y mae pobl yn mynd i sylweddoli pa mor berthnasol yw'r Beibl'

'Cyhyd â'i fod yn barchus o'r Gair ac yn ehangu deall pobl o'r Gair, mae unrhyw arbrawf yn werth ei fentro'

'Gall y Beibl fod yn sbectol neu'n fwgwd.'

'Os yw pobl yn dadlau na ddylai Cristnogion fod yn cymysgu'r Efengyl a gwleidyddiaeth, yna maen nhw'n darllen Beibl gwahanol i'm Beibl i!'

'Yr ymateb priodol i'r Beibl yw nid gwelliant mewn gwybodaeth ond newid mewn ffordd o fyw.'

(i) Rhywun i ddarllen yn uchel y darn isod:

Gwrandwch arna i'n eich dysgu, fy mhobl! Trowch i wrando ar beth dw i'n ddweud. Dw i'n mynd i adrodd straeon, a dweud am bethau o'r gorffennol sy'n ddirgelwch; pethau glywsom ni, a'u dysgu am fod ein hynafiaid wedi adrodd y stori. A byddwn ni'n eu rhannu gyda'n plant, ac yn dweud wrth y genhedlaeth nesa. Dweud fod yr ARGLWYDD yn haeddu ei foli! Sôn am ei nerth a'r pethau rhyfeddol a wnaeth. Rhoddodd ei reolau i bobl Jacob, a sefydlu ei gyfraith yn Israel. Gorchmynnodd i'n hynafiaid eu dysgu i'w plant, er mwyn i'r genhedlaeth nesaf wybod sef y plant sydd heb eu geni eto - iddyn nhw, yn eu tro, ddysgu eu plant. Iddyn nhw ddysgu trystio Duw a pheidio anghofio'r pethau mawr mae'n eu gwneud. Iddyn nhw fod yn ufudd i'w orchmynion...

(Salm 78: 1-7 beibl.net)

Oes unrhyw beth yn y darlleniad a wnaeth argraff arnoch neu dynnu'ch sylw?

'straeon'; 'dirgelwch'; 'rheolau'; 'cyfraith'; 'gorchmynion' - pa un o'r rhain sy'n disgrifio'r Beibl orau i chi, neu a oes gair arall fyddai'n well gennych?

Mae'r gair 'dysgu' yn ymddangos sawl gwaith yma - oes digon o bwyslais ar ddysgu'r Beibl yn eich eglwys chi?

Meddyliwch sut y gall eich eglwys rannu stori'r Beibl gyda'r genhedlaeth nesaf?

(ii) 'Agor y Llyfr

Y darn uchod o'r Beibl sydd wedi ysbrydoli cynllun *Agor y Llyfr*, lle mae grwpiau o aelodau eglwysi yn mynd i mewn i ysgolion i ddarllen ac actio storiâu o'r Beibl i'r plant. Arwyddair y cynllun yw 'Galluogi pob plentyn i glywed stori'r Beibl yn yr ysgol yn eu blynyddoedd cynradd'. Lluniwch ddatganiad tebyg sy'n crynhoi bwriadau eich eglwys/gofalaeth chi am rannu'r Beibl. Cofiwch gynnwys eich bwriad (beth?) a'ch targed (pwy?). Er enghraifft,

'Bydd Eglwys/Gofalaeth yn galluogi (pwy?)
i (wneud beth?)

Beth am i'ch eglwys chi ymuno â chynllun 'Agor y Llyfr'? Ewch i wefan y Cyngor Ysgolion Sul (ysgolsul.com) i gael mwy o wybodaeth.

(iii) Lluniwch neges Twitter (140 llythyren) am werth y Beibl.